**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 19 Medi 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | S Pritchard |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, L S Gibbard, C A Holley, M H Jones, E J King, A Pugh

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Raynor

---

## 56. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies, E J King, C E Lloyd and R C Stewart fudd personol yng Nghofnod 76 "Cyfle Masnachol i Ddatblygu Cyfleuster Parcio Newydd ym Mro Tawe".

## 57. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cynhaliwyd cyfarfod y Cabinet ar 15 Awst 2019.

## 58. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 59. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Cyflwynwyd nifer o gwestiynau o flaen llaw ynghylch Cofnod 66 “Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018-2019”, Cofnod 70 “Polisi Trwyddedu HMO 2020” a Chofnod 73 “Caffael ac Ailddatblygu Eiddo FPR7 – Theatr y Palace”.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig i’r:

1) Cwestiynau gan Dereck Roberts mewn perthynas â Chofnod 66;
2) Cwestiynau gan John Row mewn perthynas â Chofnod 70;
3) Cwestiynau gan Nortridge Perrot mewn perthynas â Chofnod 73.

## 60. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 62 “Uwchraddio’r System Cynllunio Adnoddau Menter (ERP)” a Chofnod 73 “Caffael ac Ailddatblygu Eiddo FPR7 – Theatr y Palace”.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 61. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Diweddaru System Cynllunio Adnoddau Menter.

Cyflwynodd y Cynghorydd M H Jones Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu mewn perthynas ag "Uwchraddio System Cynllunio Adnoddau Menter (ERP)".

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 62. Diweddaru System Cynllunio Adnoddau Menter.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwaith i uwchraddio'r system Cynllunio Adnoddau Menter a neilltuo ac awdurdodi'r prosiect i'r Rhaglen Gyfalaf gan na fydd y system bresennol yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2020.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r prosiect a'r goblygiadau ariannol a'i ychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf er mwyn uwchraddio'r system Cynllunio Adnoddau Menter erbyn mis Tachwedd 2020.

## 63. Rhaglen Gweithio Ystwyth a Gweithio Symudol Ddiwygiedig 2018-2022.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio diwygio'r Rhaglen Gyfalaf o ran cyflwyno offer TGCH ar gyfer gweithio ystwyth a gweithio symudol. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r cyllidebau Cyfalaf a'u neilltuo i'r Rhaglen Gyfalaf.

**64. Ymchwiliad Craffu i Waith Cydraddoldebau.**

Cyflwynodd y Cynghorydd L S Gibbard ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Panel Ymchwiliad Craffu Cydraddoldebau yn ei ymchwiliad cydraddoldebau.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad:

2) Y caiff Aelod y Cabinet perthnasol y dasg o adrodd yn ôl i'r Cabinet drwy lunio ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion craffu a'r cam(au) gweithredu arfaethedig.

**65. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1 2019/20.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1, 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**66. Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018/19.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn cyhoeddi Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol y cyngor ar gyfer 2018-19 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'w gyhoeddi.

**67. Tendr ar gyfer System Brynu Ddynamig er mwyn darparu gwasanaethau tacsi**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn darparu manylion canlyniad y broses dendro ac a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu contractau i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi'r System Brynu Ddynamig ar gyfer gwasanaethau tacsis ar waith ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Hydref 2019 a 30 Mehefin 2021 gydag opsiwn o'i hestyn am 36 mis ychwanegol;

2) Derbyn a rhoi lle i dendrau'r gweithredwyr yn Atodiad A yr adroddiad ar y System Brynu Ddynamig ar gyfer gwasanaethau tacsis.

## 68. Rheol 7 Adroddiad y Weithdrefn Ariannol - Rhaglen Cyfalaf Newid Cerbydau Priffyrdd a Thrafnidiaeth 2019/20

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth am wariant cyfalaf ar y rhaglen Newid Cerbydau arfaethedig ar gyfer priffyrdd a chludiant 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf Newid Cerbydau Priffyrdd a Chludiant 2019-2020.

## 69. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grantiau Cyfalaf y Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a Theithio Llesol ar gyfer 2019/20.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau canlyniad y cais am arian o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol ac a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer gwariant ar y prosiectau cysylltiedig yn 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol, ynghyd â'u goblygiadau ariannol.

## 70. Polisi Trwyddedu HMO 2020.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno adroddiad a oedd yn ceisio adolygiad o drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMO) yn Abertawe, gan gynnwys ceisiadau am drwyddedu ychwanegol.

**Penderfynwyd:**

1) Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Bolisi Drafft Trwyddedu HMO ar gyfer 2020, gan gynnwys Cynllun Trwyddedu HMO Ychwanegol yn wardiau etholiadol y Castell, Uplands a St Thomas;

2) Yn dilyn hyn, caiff canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu hadrodd yn ôl i'r cyngor er mwyn mabwysiadu Polisi Trwyddedu newydd ar gyfer 2020.

## 71. Rhaglen Hunan-Adeiladu Llywodraeth Cymru yn Nghyngor Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni adroddiad a oedd yn amlinellu lansio'r cynllun newydd ym mis Hydref 2019 gan Lywodraeth Cymru a sut roedd Cyngor Abertawe'n credu y gall gyfrannu at ei lwyddiant.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r Adran Tai yn Llywodraeth Cymru i dreialu prosiect peilot hunanadeiladu yn y sir trwy ei fenter Siop Plotiau a chaiff ei lansio ym mis Hydref 2019;

2) Bydd yr awdurdod yn ystyried cael benthyciad gan Lywodraeth Cymru o ran ariannu'r prosiect.

## 72. Dinas-ranbarth Bae Abertawe - Diwygiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y diwygiadau yng Nghytundeb Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y diwygiadau yng Nghytundeb Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel a amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad;

2) Awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol/Swyddog Monitro i ymrwymo i weithred amrywio i gyflawni'r newidiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r cytundeb yn ôl yr angen ac fel a gytunwyd rhwng yr Awdurdodau Partner.

## 73. Caffael ac ailddatblygu eiddo FPR7 - Theatr y Palace.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol er mwyn cyflwyno ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r bwriad i gaffael ac ailddatblygu Theatr y Palace fel rhan o raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig a'u hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf;

2) Awdurdodi'r cynnig i gaffael Theatr y Palace yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad hwn yn amodol ar gymeradwyo cynnig am arian grant gan Lywodraeth Cymru. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol, i drafod a chytuno ar yr holl amodau terfynol y mae eu hangen i symud y gweithrediad hwn yn ei flaen a chaiff y Prif Swyddog Cyfreithiol ei awdurdodi i gyflwyno'r prosiect hwn a diogelu buddiannau'r cyngor;

3) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd i ymgymryd â'r broses diwydrwydd dyladwy briodol fel rhan o'r pryniant arfaethedig er mwyn sicrhau bod y cyflwr a'r pris prynu a delir yn cynrychioli'r gwerth gorau.

## 74. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 75. Caffael ac ailddatblygu eiddo FPR7 - Theatr y Palace.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 76. Cyfle masnachol i ddatblygu cyfleuster parcio newydd ym Mro Tawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio neilltuo cynllun arall i'r Rhaglen Gyfalaf yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol er mwyn cael refeniw ychwanegol i'r awdurdod trwy osodiadau trydydd parti ac i alluogi swyddogion i gytuno ar yr amodau a thelerau terfynol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 77. Bwriad i brynu eiddo yng nghanol y ddinas i fuddsoddi ynddo.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer prynu eiddo fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Eiddo. Crëwyd y Gronfa yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet a wnaed ar 21 Gorffennaf 2016.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 78. Prosiect Rhesymoli Depos.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y prosiect Rhesymoli Depos ac a oedd yn ceisio awdurdod i gaffael buddiant prydles er mwyn gallu symud o Lanfa Pipehouse i fan arall.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.25 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 19 Medi 2019 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 24 Medi 2019 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 25 Medi 2019 |